# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### *Atodlen 3: Darpariaeth Bellach Ynghylch Cydnabod Cyrff Dyfarnu*

### *Paragraffau 6 i 11: Amodau capio ffioedd*

151. Mae'r paragraffau hyn yn diffinio beth yw amod capio ffioedd. Dim ond mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd a ddyfernir i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg neu hyfforddiant sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ac sy'n arwain at y cymwysterau hynny y gellir cyfyngu ar ffioedd (er enghraifft ffioedd cofrestru ar gyfer arholiad). Caniateir i ffioedd a godir o ganlyniad i'r ddarpariaeth o wasanaethau neu gyfleusterau gan y corff mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymwysterau hynny i ddysgwyr o'r fath, er enghraifft ffioedd a godir am ddarparu tystysgrif newydd yn lle'r un wreiddiol, gael eu cyfyngu gan amod capio ffioedd hefyd. Rhaid i Gymwysterau Cymru fod wedi ei fodloni ei bod yn briodol gosod yr amod i sicrhau gwerth am arian. Mae adran 47(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru nodi yn ei ddatganiad polisi y meini prawf y mae'n debygol o'u cymhwyso wrth benderfynu a yw'n briodol gosod amod capio ffioedd, y materion sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar y terfyn a bennir ynddo a chyfnod para tebygol yr amod. Diffinnir cwrs addysg sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus ym mharagraff 6(2).

152. Mae paragraff 8 yn nodi'r broses y caiff Cymwysterau Cymru osod amod capio ffioedd drwyddi, gan gynnwys y gofyniad i roi hysbysiad i'r corff dyfarnu o dan sylw am ei fwriad i osod yr amod, rhoi resymau dros ei fwriad i osod yr amod a dweud pa bryd y mae'n bwriadu penderfynu pa un ai i osod yr amod. Rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried sylwadau a gyflwynir gan y corff ac os yw'n penderfynu gosod yr amod, rhaid hysbysu'r corff am hyn a hefyd am ei hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddweud pa bryd y mae'r amod yn cymryd effaith os nad yw'r corff yn gwneud cais am adolygiad.

153. Os yw'r corff yn gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad i osod amod capio ffioedd, mae paragraff 10 yn darparu manylion am y trefniadau y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu gwneud wrth drefnu i adolygydd annibynnol adolygu'r penderfyniad. Yn dilyn yr adolygiad, os yw Cymwysterau Cymru yn cadarnhau ei benderfyniad i osod yr amod, neu'n newid yr amod, yna rhaid i Gymwysterau Cymru roi hysbysiad i'r corff dyfarnu sy'n cynnwys y manylion a nodir ym mharagraff 10(5).

154. Mae paragraff 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddilyn yr un weithdrefn ar gyfer diwygio amod capio ffioedd ag ar gyfer dyroddi amod capio ffioedd cychwynnol.